YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
Pennaeth/Head:
Mr Matthew H T Evans
029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

17 Mai 2024

Annwyl Riant / Warcheidwad,

**Eisteddfod yr Urdd :** Pob dymuniad da i bawb sy'n cystadlu dros wyliau'r hanner tymor yn Meifod. Dymuniadau gorau i bawb o deulu Glantaf sy'n cymryd rhan a mwynhewch eich profiad ar y llwyfan fawr! Llongyfarchiadau hefyd i'r disgyblion hynny fu'n llwyddianus yng nghystadlaethau gwaith cartref a Celf a Dylunio yr Eisteddfod – byddwn yn son amdanoch yn ein cylchlythyr nesaf! Nodyn atgoffa bod tocynnau rhad cynnar ar werth hyd nes Dydd Sul 19 o Fai!

**Prif Swyddogion Newydd -** Hoffwn longyfarch 4 aelod o flwyddyn 12 sydd wedi cael eu hethol yn Brif Swyddogion ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Yn dilyn cystadleuaeth frwd y 4 buddugol oedd Cadi-Gwen Sandall, Nia Griffiths, Iestyn Williams a Leon Ohimekpen. Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle i ddiolch i brif swyddogion 23/24 (Awen, Haf, Iolo a Lewys) am eu holl brwdfrydedd, egni a gwaith caled dros Ysgol Glantaf.



*Cadi-Gwen, Nia, Iestyn a Leon, Prif Swyddogion 24/25*

**Sbwriel! -** Fel yr ydych yn ymwybodol rwy'n siwr, mae rheoliadau ailgylchu wedi newid i ysgolion a sefydliadau eraill yng Nghymru sy'n golygu bod canllawiau tynn ar ailgylchu ac anfon sbwriel i safleoedd tirlenwi. Gwnaethom egluro hyn i ddisgyblion mewn gwasanaethau arbennig cyn y Pasg ac eto wrth ddychwelyd i'r ysgol y tymor hwn. Mae'n ardderchog gallu dweud bod ein disgyblion wedi ymateb yn rhyfeddol i'r ymgyrch hon ac rydym fel ysgol wedi gallu lleihau ein casgliadau sbwriel cyffredinol i un llwyth y pythefnos. Mae disgyblion yn clirio eu platiau yn y ffreutur ac mae ailgylchu sbwriel ar draws y campws yn llyfn a diffwdan. Mewn cyfnod ble mae pobl ifanc yn cael eu beirniadu am greu sbwriel, mae'n dda gweld bod ein disgyblion wedi ymateb yn wych i'n cais am ailgylchu gofalus.

**Dyfais un i un Bl7:** Mae'n braf rhannu'r newyddion da y bydd Glantaf yn parhau i gynnig dyfais un i un i ddisgyblion Bl 7 wrth iddynt ymuno â Bl8. Er bod y cynllun wedi dod i ben o ran Sir Caerdydd, rydym yn falch i gynnig y cyfle i barhau â'r cynllun i rieni yng Nglantaf. Ymunwch â'n cyfarfod rhieni Bl7 arlein ar nos Lun yr 20fed o Fai am 5pm (cyfarfod cyfrwng Cymraeg) drwy'r ddolen isod neu drwy galendr Teams eich plentyn: https://teams.microsoft.com/l/meetup-join/19%3ay1W_siYgzU6JEl8wmeVexCcojVhqIABWdcbu2cwRDOc1%40thread.tacv2/1715065917302?context=%7b%22Tid%22%3a%224f3f0e52-b734-4164-9409-1b601d147993%22%2c%22Oid%22%3a%22d394e3c1-44a5-4c81-beec-b00bf519eea0%22%7d

**Nyrs ysgol** – Mae'n braf i groesawu nyrs ysgol newydd i Glantaf sef Mr Jon Millgate fydd yn ymweld â ni bob dydd Mawrth. Gall disgyblion gyfeirio eu hunain am apwyntiad drwy gysylltu a'r Arweinydd Cynnydd a Lles perthnasol, am sgwrs gyfrinachol neu gyngor.


*Ymweliad Bl 7 â Pharc Treftadaeth y Rhondda*

**Adolygu Mathemateg –** Nodyn atgoffa o brynhawn adolygu i bawb ym Ml11 ar Ddydd Mawrth 11.06.24 o 12.50pm - 2.50pm ar gyfer cwrs TGAU Mathemateg Uned 2.



*Prosiect Celf Unify*

**Prosiect Celf Unify:** Aeth Bl9 ar daith o amgylch Celf Stryd a Chymunedol Caerdydd gyda artistiaid lleol Yusuf Ismail a Shwaqi Hasson. Byddant yn gweithio gyda ein disgyblion i greu gwaith gwreiddiol fydd yn cael ei arddangos gyda cymorth Gwasanaeth Ieuenctid y Sir yn y cyfnod 12-15 Mehefin. Pob dymuniad da gyda'r gwaith gwych yma!

**Protocol Llwyrgloi -** Diolch am eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth wrth i ni gynnal ymarfer llwyrgloi ar y safle yn ddiweddar. Fel y gwyddoch, mae'n ofynnol i ni gynnal ymarfer er mwyn i ni addasu a gwerthuso ein cynlluniau mewn sefyllfaoedd prin iawn o argyfwng. Hoffwn ddiolch i'r disgyblion am eu hymatebion aeddfed, wrth aros yn ddigyffro yn ystod yr ymarfer a chaniatau i staff fynd drwy'r protocol yn llyfn. Er na fyddwn yn rhannu ein protocol yn eang, hoffwn nodi bod cyfathrebu gyda chi fel rhieni yn flaenoriaeth mewn sefyllfa o'r fath a byddwn o hyd yn cadw mewn cyswllt drwy lwyfan *Classcharts*. Diolch am eich dealltwriaeth.

**Pencampwyr Pel Droed a llwyddiant Cwpan Prydeinig Rygbi XIII -** Llongyfarchiadau enfawr i dîm rygbi blwyddyn 7 ar gyrraedd rownd derfynol Prydain i'w chynnal yn Stadiwm Wembley ar yr 8fed o Fehefin.. Llongyfarchiadau hefyd i dîm pêl droed dan 18 ac i dîm dan15 merched am eu llwyddiant diweddar wrth iddynt ddod yn Bencampwyr Cymru ar ôl sicrhau Pencampwriaeth y Sir yn gynharach yn y tymor! Diolch didwyll i'r athrawon a staff am hyfforddi ac am bob annogaeth.



*Ymlaen i Wembley! Tim Rygbi XIII Bl 7*

**Taith De Affrica 2024:** Mae nifer o weithgareddau wedi eu trefnu i gefnogi teithiau chwaaraeon i Dde Affrica, gyda Noson Cyri yn cael ei chynnal Nos Sadwrn 18 o Fai a bydd Twrnament Rygbi Cyffwrdd Glantaf ar Ddydd Sadwrn 15fed o Fehefin. Ewch i gyfri X yr adrannau am fwy o fanylion a chofrestru!

**Arholiadau a Phrofion Cenedlaethol -** Fel y gwyddoch mae arholiadau TGAU a Safon Uwch ar y gweill, felly dymunwn yn dda i'n holl ddysgwyr yn eu gwaith adolygu. Dylai disgyblion gyrraedd yn brydlon ar gyfer arholiadau a chofio cyfarpar allweddol ar gyfer pob arholiad. Hoffwn hefyd atgoffa rhieni y bydd y profion cenedlaethol darllen a rhif yn cael eu cynnal yn y cyfnod 17 – 27 Mehefin i holl ddisgyblion Bl 7, 8 a 9.

Yn olaf, hoffwn longyfarch Ciaran Williams ar gael ei ddewis i chwarae Criced dros Gymru, dymuno'n dda i'r daith bel-droed Bl9 i Sbaen dros yr hanner tymor a dymuno'n dda eto i bawb sydd yn chwifio baner Glantaf draw yn Meifod! Amdani Gtaf!

Yn gywir,

Matthew H T Evans
Pennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg
Glantaf





*Pencampwyr Cenedlaethol Cymru Pêl droed dan 18 a dan 15*